



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd



Israddedig

Llawlyfr

Gwybodaeth Pontio & Croesawu i Bob
Myfyriwr Newydd



CONTENTS

- [Croeso](#)
- [Sgiliau Digidol](#)
- [Tiwtoriaid Personol](#)
- [Gwasanaethau Myfyrwyr](#)
- [Eich Undeb Myfyrwyr ac Wythnos y Glas](#)
- [Eich Cerdyn Met](#)
- [Teithio o gwmpas Caerdydd](#)
- [Dolenni Defnyddiol](#)



Croeso

Llongyfarchiadau unwaith eto ar ennill eich lle ym Met Caerdydd ar gyfer mis Medi 2023.

Dyluniwyd y pecyn gwybodaeth hwn i'ch cyflwyno i rai o'n gwasanaethau defnyddiol, er mwyn eich lleddfu drwy'r broses bontio ar gyfer dechrau eich cwrs.

Yn ddiweddarach ym mis Medi, byddwch hefyd yn derbyn pecyn penodol ar gyfer y cwrs gyda mwy o wybodaeth am eich cyfnod pontio a'ch wythnos groeso yn dechrau ar Fedi'r 18eg. Bydd angen i chi fod ar gael ar gyfer eich wythnos bontio oherwydd bydd gweithgareddau a sesiynau cwrs yn cael eu cynnal dros yr wythnos.

Sylwch na fydd eich amserlen addysgu swyddogol yn cael ei chadarnhau tan yn nes at ddechrau eich cwrs.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau o gwbl am ddechrau ym Met Caerdydd, neu gallwn helpu i'ch rhoi mewn cysylltiad ag unrhyw un o'n gwasanaethau proffesiynol i bontio mor llyfn â phosibl, cysylltwch â Derbyniadau.

Rydym yn gyffrous i'ch gweld ar y campws yn fuan!

Y Tîm Derbyniadau

askadmissions@cardiffmet.ac.uk

02920 416010



Sesiwn Gynefino Sgiliau Digidol i Fyfyrrwyr

Mae'r rhaglen gynefino [Hanfodion Digidol](#) yn rhoi'r sgiliau digidol craidd sydd eu hangen arnoch i astudio ym Met Caerdydd.

Byddwch yn dysgu am y technolegau a'r arferion digidol sy'n eich galluogi i ymgymryd â'ch astudiaethau o bell ac yn y cnawd. Mae'r rhaglen sefydlu yn archwilio systemau hanfodol fel Moodle, e-bost, ein siop apiau, rheoli eich dogfennau a Microsoft Teams – y llwyfan cyfathrebu digidol a fydd yn ganolog i'ch dysgu.

Dyma beth sydd angen i chi ei wneud:

1. Cwblhau a phasio'r e-wers sefydlu *Hanfodion Digidol*.
2. Mynychu a chwblhau'r sesiynau hyfforddi *Cyflwyniad i Teams a Rheoli Dogfennau ym Met Caerdydd* sy'n adeiladu ar yr e-wers sefydlu.

Gallwch gwblhau'r e-wers Hanfodion Digidol unrhyw bryd, dim ond 25 munud y dylai ei gymryd. Rydym yn awgrymu ei gwblhau cyn i chi gyrraedd Met Caerdydd.

Gallwch hefyd gofrestru ar gyfer y ddwy sesiwn hyfforddi, a bydd y rhain yn cael eu cynnal trwy gyfarfod Microsoft Teams yn ystod yr wythnos sefydlu a phythefnos gyntaf y tymor.

Ewch i'r dudalen [Hanfodion Digidol](#) i ddechrau. Cofiwch, defnyddiwch eich Rhif Myfyriwr Met Caerdydd i fewngofnodi st[eich rhif myfyriwr]@outlook.cardiffmet.ac.uk.

Sesiwn Sefydlu'r Llyfrgell

Mae [rhaglen sefydlu'r Llyfrgell](#) yn archwilio sut i gael mynediad at yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd wedi'u cynllunio i gefnogi'ch dysgu. Sesiwn sefydlu ar-lein yw hon, felly gallwch ei gwblhau unrhyw bryd, dylai gymryd tua 10 munud i'w gwblhau.

Datblygwch eich sgiliau digidol ymhellach

Bydd y rhaglen sefydlu Hanfodion Digidol yn datblygu'r sgiliau digidol *sylfaenol* y bydd eu hangen arnoch; mae ein [cyrсияu Sgiliau Digidol](#) yn eu datblygu ymhellach.

Mae ein cyrsiau Microsoft Office Specialist yn gyrsiau hyfforddi cynhwysfawr ar gyfer Excel, Word, PowerPoint ac Outlook ac yn arwain at gymwysterau Microsoft swyddogol, ac mae pob un ar gael i fyfyrwyr **am ddim**. Gallwch gael blas ar y cyrsiau hyn trwy gwblhau [e-wers blasu](#) o bob cwrs.

Bydd rhaglen lawn o hyfforddiant sgiliau digidol - gan gynnwys y cyrsiau Office, Teams a hyfforddiant rheoli dogfennau, dylunio gwe, Photoshop, dylunio arolygon ar-lein a mwy - yn cael ei chyhoeddi trwy e-bost ganol mis Medi.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan Sgiliau Digidol: digitalskills.cardiffmet.ac.uk neu cysylltwch â digitalskills@cardiffmet.ac.uk



Gwasanaethau'r Llyfrgell

Mae'r holl wybodaeth i'ch cefnogi trwy gydol eich amser yn astudio gyda ni ym Met Caerdydd ar gael ar [dudalennau gwe'r Llyfrgell](https://library.cardiffmet.ac.uk/home): <https://library.cardiffmet.ac.uk/home> (<https://shorturl.at/ntMVO>)

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am ein horiau agor, mynediad i ofod 24 awr, ystafelloedd astudio, a llawer mwy yno.

Dysgwch bopeth am y Llyfrgell drwy ddefnyddio [Rhaglen Sefydlu'r Llyfrgell](#). Mae'n gwrs ar-lein sydd ar gael pan fyddwch ei angen. Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud i chi weithio drwyddo.

Dod o hyd i lyfrau a chyfnodolion

Byddwch yn cael rhestr ddarllen ar gyfer pob modiwl ar eich rhaglen. Gallwch ddod o hyd i'r eitemau trwy ddefnyddio [MetSearch](#), peiriant chwilio'r llyfrgell.

Mewngofnodwch i MetSearch gyda'ch manylio mewngofnodi Met Caerdydd i wneud yn siŵr eich bod yn gweld yr holl lyfrau a chyfnodolion electronig yn ogystal â'r rhai sydd gennym ar y silffoedd. Bydd MetSearch hefyd yn dweud wrthy'ch chi am leoliad ac argaeledd yr adnoddau print yn ein dwy Ganolfan Ddysgu.

Cael cymorth i ddefnyddio'r llyfrau a'r cyfnodolion, a mwy

Gallwch ddysgu llawer mwy am sut i gael y gorau o'n hadnoddau gan ein tîm [Ymarfer Academaidd](#).

Mae gweithdai ar gael trwy gydol y flwyddyn academaidd ar amrywiaeth o bynciau megis adnabod ffynonellau academaidd, ysgrifennu asesiadau da, a chyfeirnod. Fe welwch lawer o adnoddau ar y pynciau hyn ar [Smart Study](#).

Cysylltwch â ni

Gallwch e-bostio'r Llyfrgell; Llyfrgell@cardiffmet.ac.uk neu ddefnyddio ein gwasanaeth [gwe-sgwrs byw](#) neu dewch i siarad â'n staff cyfeillgar yn y Llyfrgell yng Nghyncoed a Llandaf.



Tiwtoriaid Personol ym Met Caerdydd

Bydd tiwtor personol yn cael ei bennu i bob myfyriwr yn ystod cyfnod ymsefydlu eich astudiaethau ym Met Caerdydd. Fel arfer, aelod academiaidd o staff o'ch cwrs fydd eich Tiwtor personol.

Unwaith y bydd Tiwtor Personol wedi'i bennu i chi, eu cyfrifoldeb nhw yw eich cefnogi chi drwy eich amser yma ym Met Caerdydd. Byddant yn eich cefnogi trwy gyfarfodydd tiwtorial wedi'u trefnu sy'n digwydd unwaith y tymor, fel man lleiaf.

Gall y cymorth hwn gynnwys trafod eich cyraeddiadau academiaidd, meysydd y mae angen eu gwella, neu unrhyw faterion personol y gallech fod yn eu profi. Does dim gwahaniaeth beth yw'r ymholiad, bydd eich tiwtor personol yn gallu eich cyfeirio at y person neu'r cymorth mwyaf priodol yn y brifysgol neu du hwnt.

Gallwch drefnu apwyntiadau Tiwtor Personol drwy'r [Porth Tiwtoriaid Personol](#).



Gwasanaethau Myfyrwyr

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gymorth arbenigol o ansawdd uchel, sydd ar gael ar y campws ac ar-lein trwy apwyntiadau, gweithdai, sesiynau galw heibio, gweminarau ac adnoddau ar-lein. Ein nod yw eich helpu i oresgyn unrhyw rwystrau y gallech eu hwynebu wrth astudio gyda ni a'ch helpu i gyflawni'ch potensial llawn.

Gallwch gael cymorth gan:

- Y Gwasanaeth Gyrfaoedd
- Ehangu Llwyddiant
- Lleoliadau
- Anabledd, Iechyd Meddwl a Dyslecsia
- Cymorth Dysgu
- Cyngor Ariannol
- Parth-g
- Caplaniaeth

Ewch i'r [parth-g](#) ar y ddau gampws i ddarganfod mwy am Wasanaethau Myfyrwyr a chael mynediad at gymorth anacademaidd. Gallwch ddod o hyd i'r parth-g wrth ymyl y brif dderbynfa ar gampws Llandaf a drws nesaf i'r Llyfrgell ar gampws Cyncoed.

Gallwch hefyd gysylltu â thîm parth-g drwy e-bost: izone@cardiffmet.ac.uk

Ynghyd â'n tair ystafell weddio aml-ffydd sydd ar gael ar draws ein campysau, gall tîm y Gaplaniaeth roi cyngor a chymorth i chi ar faterion sy'n ymwneud â ffydd.

caplancy@cardiffmet.ac.uk

Adnoddau cefnogi

[Siapio Eich Dyfodol](#) – datblygu sgiliau cyflogadwyedd

Gweithio tuag at ddatblygu wyth o'r sgiliau pwysicaf y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt wrth recriwtio, gan gynnwys arweinyddiaeth, addasrwydd a brandio personol.

[Bod yn Iach, Byw'n Dda](#) – iechyd meddwl, lles a rheoli arian

Datblygu a dysgu ffyrdd o reoli eich iechyd meddwl, gwella'ch lles a rheoli'ch arian yn effeithiol trwy'r e-fodiwl Bod yn Iach, Byw'n Dda.

[Togetherall](#) – cymorth iechyd meddwl

Nid ydych chi ar eich pen eich hun ym Met Caerdydd; Mae Togetherall yn gymuned cymorth iechyd meddwl ddienw i'ch cefnogi gyda beth bynnag yr ydych yn mynd drwyddo.



Eich Cynlluniau Gyrfa

Rydyn ni eisiau deall sut i'ch helpu chi i weithio tuag at eich nodau gyrfa tra byddwch chi'n astudio gyda ni. Bydd yr holiadur Eich Cynlluniau Gyrfa yn ein helpu i wneud hynny, a byddwch yn derbyn rhai awgrymiadau ar gyfer dechrau arni yn seiliedig ar eich atebion.

[Cwblhewch yr holiadur Eich Cynlluniau Gyrfa](#)

Sylwch: bydd angen i chi gofrestru ar-lein fel myfyriwr Met Caerdydd i allu llenwi'r holiadur hwn.



Eich Undeb Myfyrwyr ac Wythnos y Glas

Ni yw [UM Met Caerdydd](#), a thithau hefyd! Fel myfyriwr Met Caerdydd, rydych chi'n dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr (UM) yn awtomatig fel bod gennych fynediad llawn i bopeth sydd gennym i'w gynnig. Ein nod yw cynrychioli eich barn a rhoi llawer o gyfleoedd i chi fanteisio i'r eithaf ar eich amser ym Met Caerdydd.

Rydych wrth wraidd popeth a wnawn, o ddweud wrthym beth rydych am i ni ei wneud i chi trwy ein strwythur [Cynrychiolaeth UM](#) neu ddod yn Rep UM ar gyfer eich cwrs, i ymuno â [Chymdeithas UM](#) neu glwb [Chwaraeon UM](#). O gwblhau [Gwobr Met Caerdydd](#) i ymuno â phrosiect [gwirfoddoli](#). O fynychu ein [digwyddiadau](#) fel Varsity, Campus Canines, cwisiau tafarn a llawer mwy, credwn fod rhywbeth i bawb yma yn y SU.

Cadwch lygad allan yn ddiweddarach yn yr haf ar gyfer Canllaw hanfodol Wythnos y Glas a fydd yn rhoi mwy fyth o wybodaeth i chi am fywyd ym Met Caerdydd a sut i gymryd rhan yn yr Undeb Myfyrwyr, gan gynnwys [Ffair y Glas](#) ym mis Medi.

Ni allwn aros i'ch cyfarfod eleni, ac rydym yn eich annog i ymwneud â'ch UM gymaint â phosibl. Am fwy o wybodaeth gallwch ddod o hyd i ni ar [Instagram](#), [TikTok](#), [Facebook](#) a [Twitter](#)- @CardiffMetSU, ewch i'n gwefan www.cardiffmetsu.co.uk, anfonwch e-bost atom yn studentunion@cardiffmet.ac.uk, neu dewch i'n swyddfeydd ar gampysau Cyncoed a Llandaf.

Rydyn ni eisiau i chi gael y profiad myfyriwr gorau posib yma ym Met Caerdydd, oherwydd ein bod ni'n UM Met Caerdydd, a chithau nawr!



Eich Cerdyn Met

Gweler isod y ddolen a fydd yn eich galluogi i lanlwytho ffotograff ar gyfer eich Cerdyn Adnabod myfyriwr.

Mae'n bwysig eich bod yn cwblhau'r broses hon i sicrhau bod gennych fynediad i gyfleusterau, adeiladau a llety unwaith y byddwch ar y campws.

Pan fyddwch chi wedi dewis eich ffotograff, byddwch yn gweld delwedd o'ch cerdyn Adnabod gyda manylion personol, y gellir eu diweddarau os yw'r wybodaeth yn hen. Gwnewch yn siŵr eich bod yn lanlwytho ffotograff sy'n eich cynrychioli chi a'ch bod yn hapus ag ef oherwydd mae proses gymeradwyo ar waith, sy'n golygu y gallwch gael eich gofyn i gyflwyno ffotograff arall. Ar ôl ichi gadarnhau eich bod yn hapus â'r cerdyn, gallwch gasglu hwn o'r campws o wythnos y Glas ymlaen.

Defnyddiwch eich manylion mewngofnodi myfyriwr Met Caerdydd pan ofynnir ichi fewngofnodi:

<https://cis2.cardiffmet.ac.uk/PhotoUpload/>



Teithio o gwmpas Caerdydd

Cerdded

Cerdded o Blas Gwyn

Mae cerdded i'r campws yn ddull rhad ac am ddim, hawdd a chyflym o'r Neuaddau Preswyl sydd wedi'u lleoli yn agos at ein campysau. Ymunwch â rhai o'ch cartref i baru amserlenni a cherdded â'ch gilydd. Dyma'r daith gerdded o Blas Gwyn i Gampws Llandaf -

<https://youtu.be/wj6JnLy4K0o>

Beicio

Os oes gennych eich beic eich hun, dewch ag ef i'r Brifysgol a'i ddefnyddio. Mae Caerdydd yn ddinas wych i feicio ynddi ac enillodd Met Caerdydd y wobr Busnes Mwyaf Cyfeillgar i Seiclo yng Ngwobrau Beicio Caerdydd 2019.

Mae storfeydd beiciau sych â mynediad â cherdyn, stondinau cynnal a chadw, offer, loceri, cawodydd a hyd yn oed llwybrau beicio ar gael ar ein campysau ac o'u hamgylch. Mae gan Llandaf gyfleusterau pwrpasol sydd yng nghefn yr Ysgol Gelf a Dylunio. Mae cyfleusterau Cyncoed wedi'u lleoli yn y Ganolfan Tennis.

Ymunwch am 8:30yb y tu allan i Blas Gwyn neu Dderbynfeydd Unite i reidio gyda'ch gilydd i Gampws Llandaf yng nghonfoi beicio Met Caerdydd!

nextbike (OVO) y DU — Newyddion cyffrous!

Eleni, rydym wedi cadarnhau ein bod wedi prynu 5,000 o drwyddedau nextbike i fyfyrwyr Met Caerdydd yn unig eu defnyddio! Mae'r 30 munud cyntaf yn RHAD AC AM DDIM bob tro y byddwch yn defnyddio un, cynifer o weithiau'r dydd ag y dymunwch, bob dydd am flwyddyn! Mae'r daith o Gampws Llandaf i Ganol y Ddinas yn ddeg munud ar nextbike. Mae Campws Cyncoed i ardaloedd myfyrwyr y Rhath/Cathays yn ddeg munud ar nextbike. Mae gennym orsafoedd ar bob campws ac yn agos i bob Neuadd Breswyl. Mae angen i chi dalu blaendal o £5 ond byddwch yn cael hynny'n ôl os byddwch yn gadael y cynllun. Fe'ch cynghorir i ddiheintio'r gafaelion llaw, y gloch a'r uned brosesu ganolog ac ati wrth ddefnyddio nextbike.

Er mwyn cofrestru i ddefnyddio nextbike, lawrlwythwch ap nextbike neu ewch i www.nextbike.co.uk/cy/cardiff.

Cofiwch gofrestru gyda'ch cyfeiriad e-bost Prifysgol.



Bws

Mae Met Caerdydd yn falch o gynnig tocyn drwy Ap sy'n werth da am arian eleni, gan roi mynediad diderfyn i chi i holl wasanaethau Bws Caerdydd ynghyd â llwybr pwrpasol y Met Wibiwr o Landaf i Gyncoed, trwy gydol y flwyddyn academaidd lawn am bris gostyngol iawn. Cliciwch ar y ddolen isod i gael mwy o wybodaeth a rhowch 'bus' yn y Chwilio.

<http://estore.cardiffmet.ac.uk>

Cofiwch fod rhaid gwisgo gorchuddion wyneb bob amser ar wasanaethau Bws Caerdydd.

Daliwch wasanaeth 52 i gyrraedd Campws Cyncoed. Mae'n eich gollwng o flaen y prif adeilad ac mae'n rhedeg bob 20 munud. Mae amseroedd y gwasanaeth a'r llwybr i'w gweld yma:

<https://www.cardiffbus.com/services/CB/52>

Daliwch wasanaeth 1 neu 2 sy'n stopio yn union y tu allan i Gampws Llandaf neu'r 25 sy'n stopio ychydig funudau i ffwrdd ar droed naill ai yn Ysgol Howells neu Bentref Llandaf.

<https://www.cardiffbus.com/services/CB/1>

<https://www.cardiffbus.com/services/CB/2>

<https://www.cardiffbus.com/services/CB/25>

Mae Traveline Cymru'n wych er mwyn gweld sut i gyrraedd y campws. Rhowch gynnig arno yma:

<https://www.cymraeg.traveline.cymru>

Tacsi/Uber

Dewis arall yw dal tacsi neu Uber i'ch campws a rhannu'r gost ymhlith eich cartref. Mae Uber o'r Rhath/Cathays i Gampws Llandaf neu Gampws Cyncoed tua £8 bob ffordd.



Dolenni Defnyddiol

[MetCanolog](#)

Ein safle pwrpasol ar gyfer eich holl anghenion fel myfyrwyr.

[Amserlen](#)

Bydd y ddolen hon yn rhoi mynediad i chi at eich amserlen gadarn. Mae angen i chi fod wedi cofrestru cyn y gallwch gael mynediad at y ddolen hon, a byddwn yn cysylltu â chi pan fydd y wybodaeth ar gael.

[Ymgysylltu Byd-eang](#)

Cyngor a chymorth i fyfyrwyr rhyngwladol ar wneud eich cais am fisa, byw yn y DU, gwneud trefniadau llety a manteisio ar y Gwasanaeth Croesawu Maes Awyr. Bydd Ymgysylltu Byd-eang yn darparu cymorth lles a chyngor dysgu drwy gydol eich cwrs.

[Costau Ychwanegol y Cwrs](#)

Costau ychwanegol yw'r treuliau gorfodol neu ddewisol sy'n ychwanegol at ffioedd dysgu y mae angen i fyfyrwyr dalu amdanynt i gymryd rhan lawn yn eu hastudiaethau a'u cwblhau. Mae hyn yn cynnwys pethau fel offer, teithiau, lleoliadau a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae gan bob rhaglen gostau ychwanegol gwahanol.

[Gwasanaethau Myfyrwyr](#)

I gael cymorth yn ystod eich amser gyda ni mewn perthynas â'ch iechyd, lles, ffordd o fyw a'ch gyrfa yn y dyfodol. Y nod yw rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arnoch i sicrhau bod eich astudiaethau mor bleserus a llwyddiannus â phosibl. Mae'r gwasanaethau hefyd yn cynnwys cwnsela, anabledd a chaplaniaeth.

[Chwaraeon a Chyfleusterau Met Caerdydd](#)

[UM Met Caerdydd](#) gan gynnwys Cymdeithasau UM, Clybiau Chwaraeon UM a'r gallu i gael cyngor a chymorth annibynnol

[Teithiau Rhithiol](#)

[Ewch i gael golwg arall ar ein campws a'n cyfleusterau drwy ein teithiau tywys rhithiol](#)

[Llawlyfr y Myfyrwyr](#)

[Llawlyfr Academaidd](#)

[Polisi Derbyn](#)

[Cwynion](#)

